

Safle Sipsiwn a Theithwyr Tramwy – Datganiad Cymunedol a leithyddol

Datblygwyd y Datganiad Cymunedol ac leithyddol hwn yn unol â Pholisi Cynllunio RD5 - Yr Iaith Gymraeg a Ffabrig Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau, ac fe'i strwythurir o gwmpas y cwestiynau rhagnodedig yn Atodiad 3 o'r Canllawiau Cynllunio Atodol - Cynllunio a'r Iaith Gymraeg.

Sylwch fod y cwestiynau 'Datblygiad math tai' tuag at ddiwedd y ddogfen hon wedi cael eu hateb oherwydd bydd pobl yn byw ar y safle unwaith y bydd wedi ei gwblhau. Fodd bynnag, ar ôl ymgynghori ag Adran Gynllunio Cyngor Sir Ddinbych, cadarnhawyd, pan fyddai'n cael ei gyflwyno, y dylid trin y cais fel 'arall' gan nad yw safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn dod o fewn unrhyw ddosbarth defnydd penodol. Mae Cylchlythyr 005/2018 Llywodraeth Cymru yn nodi; Nid yw'r diffiniad o safle Sipsiwn a Theithwyr at ddibenion y Cylchlythyr hwn yn cynnwys annedd (hynny yw, tai sy'n dod o fewn Dosbarth Defnydd C3 o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref [Dosbarthiadau Defnydd] 1987 [fel y'i diwygiwyd]).

1. Ymgysylltu â'r Gymuned

Ym mis Ionawr 2017, cytunodd Cabinet Cyngor Sir Ddinbych i gyflwyno Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych i Lywodraeth Cymru. Cymeradwywyd hyn wedyn gan Lywodraeth Cymru Mawrth 2017.

Yn dilyn hyn ym mis Medi 2017 mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymgymryd â'r canlynol:

- Cyhoeddi Galwad Cyhoeddus am dir (Gweler Atodiad 1 y Datganiad Dylunio a Mynediad)
- Ysgrifennu'n uniongyrchol at dros 300 o unigolion perthnasol yn cynnwys tîrfeddiannwyr, asiantwyr a chynghorau tref a chymuned (Gweler Atodiad 2 o'r Datganiad Dylunio a Mynediad)
- Adolygu'r holl dir sy'n eiddo i'r awdurdod lleol;

Wedi hyn, gwerthuswyd y safleoedd posib yn erbyn y gofynion cynllunio, canllawiau Llywodraeth Cymru, ystyriaethau hyfywedd/ cyflawnadwyedd (Gweler Atodiad 3 am y meini prawf a ddefnyddiwyd)

Ar 25 Medi 2018, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Sir Ddinbych y cynnig i ddatblygu'r lleoliad a ffafirir a symud ymlaen i'r Cam Cais Cynllunio. Atgyfnerthwyd hyn mewn cyfarfod Cabinet arall ar 15 Hydref 2018.

Ers hynny, mae asesiad technegol o'r safle wedi bod yn parhau, ynghyd â datblygu'r cynigion. Yn ystod yr amser hwn, cynhaliwyd ymgynghoriad gyda sefydliadau megis adrannau Tai a Phriffyrdd Cyngor Sir Ddinbych, Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Bydd ymgynghori â'r gymuned leol yn digwydd yn unol â'r broses Cyn Cynllunio, mae hyn yn cynnwys rhoi hysbysiad yn yr ardal leol, cyhoeddi datganiad i'r wasg, danfon llythyrau i'r cymdogion yn y cyffiniau, ynghyd â chysylltu'n uniongyrchol â'r cynghorau tref a chymuned. Y cyfan gyda'r nod o annog adborth oddi wrth y gymuned leol.

Bydd yr holl ddogfennau cysylltiedig hefyd ar gael i'w gweld yn llyfrgell Llanelwy ac fe'u cynhelir ar adran benodol o wefan Cyngor Sir Ddinbych <https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/community-and-living/gypsies-and-travellers/gypsies-and-travellers.aspx> yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd hyn yn galluogi pobl i gyflwyno eu sylwadau, naill ai'n bersonol neu ar-lein.

Bydd digwyddiad galw heibio cyhoeddus hefyd yn digwydd, lle bydd cynrychiolwyr o Gyngor Sir Ddinbych yn bresennol i ateb cwestiynau a godir gan y rhai sy'n mynychu, ac i helpu'r rheiny sy'n dymuno gwneud hynny, i roi adborth.

Unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori Cyn Cynllunio wedi dod i ben, bydd yr adborth a dderbynnir yn cael ei adolygu a'i ystyried yn erbyn y polisi cynllunio perthnasol. Bydd adroddiad yn seiliedig ar y broses hon yn cael ei lunio a'i gyflwyno gyda'r cais cynllunio.

2. Proffil Poblogaeth

Mae'r datblygiad arfaethedig yn rhan o ardal weinyddol Cyngor Dinas Llanelwy, ond hefyd yn agos at ardaloedd Cyngor Tref Bodelwyddan a Chyngor Cymuned Cefn Meiriadog.

Cyfanswm poblogaeth Llanelwy fel y'i cofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011 oedd 3355, gostyngiad o 137 o gyfrifiad 2001, a gofnododd gyfanswm poblogaeth o 3492. Roedd y gostyngiad hwn yn y boblogaeth leol mewn gwirionedd yn groes i'r duedd gyffredinol ar draws Sir Ddinbych, lle gwelwyd ychydig o gynydd dros yr un cyfnod, 93102 yn 2001 i 93734 yn 2011.

Mae proffil oedran y boblogaeth yn ardal Llanelwy yn seiliedig ar gyfrifiad 2011 fel a ganlyn 0-14 oed 528 (16%), 15-64 oed 2060 (61%) a 65yrs + 767 (23%). Mae hyn yn gymesur â Sir Ddinbych yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r ffigurau'n awgrymu poblogaeth ychydig yn hŷn yn ardal Llanelwy o'i gymharu â Sir Ddinbych, sydd wedi'i rhannu fel 0-14 oed 17%, 15-64 oed 62% a 65 + oed 21%.

Roedd canran y siaradwyr Cymraeg yn Llanelwy fel y'i cofnodwyd yng nghyfrifiad 2011 yn 22.9%, yn is na ffigwr Sir Ddinbych o 24.6% ac ardal gyfagos Cefn Meiriadog (30.4%) ond yn uwch na Bodelwyddan (17.9%). Mae cymhariaeth â ffigurau cyfrifiadau hŷn yn dangos darlun amrywiol, yn 2001 fe'i cofnodwyd yn 24% ond yn 1991 roedd yn 20%.

Gan fod y term 'Sipsiwn a Theithwyr' yn cwmpasu grŵp eang o ddiwylliant amrywiol, mae'n anodd penderfynu ar yr effaith ar broffil y boblogaeth. Nododd yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yr angen am safle sy'n cynnig 4-5 lle, ond gan nad yw manylion y defnyddwyr yn hysbys, amcangyfrif yn unig fyddai nodi unrhyw effaith ar y demograffeg leol o ran oedran neu siaradwyr Cymraeg.

3. Nodweddion Datblygu

Cyffredinol:

A yw polisiâu cenedlaethol a lleol gan gynnwys polisiâu cynllunio lleol yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn cael eu diwallu?

Ydyn, mae'r polisiâu cenedlaethol a lleol gan gynnwys polisiâu cynllunio yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn cael eu diwallu gyda'r cynnig hwn. Gweler y Datganiad Dylunio a Mynediad adran 6.6, Ymateb i'r Polisi Cynllunio am restr o'r holl ddogfennau perthnasol.

Yn benodol berthnasol i'r cais hwn mae - Deddf Tai (Cymru) 2014, Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru - Canllawiau Llywodraeth Cymru (Mai 2015), Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 005/2018: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn (Mehefin 2018) a Thema'r Cynllun Datblygu Lleol BSC 10 - Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

A fydd y cynnig yn creu cyfleoedd newydd i hyrwyddo'r iaith a mentrau lleol yn y gymuned?

Ar hyn o bryd nid yw'n amlwg a fydd y cynnig yn creu cyfleoedd newydd i hyrwyddo'r iaith a mentrau lleol yn y gymuned. Fodd bynnag, fel pob preswlydd yn Sir Ddinbych, efallai y bydd y rhai sy'n byw ar y safle yn mynegi dewis ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg, neu addysg yn seiliedig ar ffydd.

A oes gwasanaethau lleol priodol megis siopau, cyfleusterau preswyl / cymunedol i wasanaethu'r datblygiad?

Oes, er mewn ardal lled-wledig mae amrywiaeth o wasanaethau lleol priodol.

Mae Llanelwy dafliaid carreg i ffwrdd ac mae yno nifer o siopau, tai bwyta a thafarndai, ynghyd â chyfleusterau cymunedol megis Ysgolion, Llyfrgell a Chanolfan Hamdden.

Yn agosach mae arosfan bysiau gyda gwasanaethau rheolaidd sy'n darparu mynediad i'r ardal ehangach. Mae blwch post a llwybr beiciau hefyd yn agos i'r safle arfaethedig.

A yw'r cynnig yn gynaliadwy yn y tymor hir?

Ydi, mae'r cynnig yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Bydd yr adeilad amwynder newydd yn cael ei hadeiladu i safon effeithlonrwydd uchel a byddt yn bodloni'r gofynion rheoleiddio adeiladu presennol. Bydd hyn yn helpu i leihau effaith prisiau tanwydd cynyddol i Gyngor Sir Ddinbych a darpar ddefnyddwyr.

Bydd detholiad gofalus o ddeunyddiau adeiladu a thirlunio caled priodol yn sicrhau defnydd hirdymor ac yn helpu i leihau'r gwaith cynnal a chadw parhaus.

Gyda'r angen am lety o'r fath a amlygwyd yn yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr, disgwylir i'r lleiniau hyn fod yn gynaliadwy yn y tymor hir.

A oes digon o ddarpariaeth isadeiledd i wasanaethu'r datblygiad?

Oes, mae digon o ddarpariaeth isadeiledd i wasanaethu'r datblygiad.

Mae Datganiad Cludiant wedi'i baratoi gan Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych. Er bod yr adroddiad yn amlygu bod angen rhywfaint o waith gwella cymharol fach ar Lôn Cwtir, bydd hyn yn cael ei wneud fel rhan o'r gwaith arfaethedig.

Mae trydan, prif bibellau dŵr a llinellau ffôn ar gael yn agos iawn at y safle.

O ran draenio. Oherwydd y defnydd achlysurol posibl o'r safle a pha mor agos ydyw at y system draenio dŵr budr, bydd carthbwll yn cael ei osod. Bydd hwn wedi ei leoli tu allan i'r ardal 'llain galed' er mwyn hwyluso mynediad a'i wagio. A bydd system ddraenio gynaliadwy gyda chyfyngiad priodol yn helpu i reoli'r dŵr wyneb ar y safle.

Datblygiad math tai

Beth yw'r pris marchnad disgwyliedig ar gyfer y tai a sut mae hyn yn cymharu ag incwm cartrefi lleol?

Gosodir rhenti a'r blaendaliadau ar gyfer y lleiniau gan ystyried lefelau rhent cymdeithasol presennol Cyngor Sir Ddinbych, gan sicrhau eu bod yn parhau'n fforddiadwy.

Ydy'r datblygiad yn cynnwys elfen briodol o dai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol?

Ydy, mae'r datblygiad yn cynnwys elfen ddiwylliannol briodol o leiniau fforddiadwy i ddiwallu angen lleol a nodwyd.

Yn wir, dylai'r holl leiniau gael eu hystyried yn fforddiadwy. Fel y crybwyllir uchod, bydd y rhenti a'r blaendaliadau yn cael eu gosod gan ystyried strwythur lefelau rhent cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych.

Sefydlwyd yr angen lleol yn yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr a nododd yr angen am 'Safle tramwy ar gyfer 4-5 llain'.

A fu datblygiadau tebyg ar raddfa debyg a gwblhawyd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf?

Na, ni fu datblygiadau tebyg wedi'u cwblhau yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw Safle Sipsiwn a Theithwyr yn darparu llety sy'n addas yn ddiwylliannol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych. Hefyd mae'r ddyletswydd i greu darpariaeth ar gyfer safleoedd lle mae'r asesiad yn nodi anghenion, yn ofynion statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Beth fu cyfradd twf preswyliaeth yn y gymuned yn ystod y 5 mlynedd diwethaf?

Gan fod yr ardal gyfagos yn lled-wledig ac mae ganddi gymysgedd o ddatblygiadau diwydiannol a busnes amrywiol, ynghyd ag is-orsaf / safle trawsnewidydd, eiddo preswyl a ffermydd gwaith, mae newidiadau preswyliaeth yn y gymuned, naill ai i fyny neu i lawr, bob amser yn debygol o fod yn fach iawn. Nid yw gwybodaeth y Cyfrifiad ar y 5 mlynedd diwethaf ar gael, ond yn seiliedig ar ffigurau cyfrifiad diweddaraf 2011 a 2001 mae'r boblogaeth yn Llanelwy wedi gostwng 137 o 3355 i 3492.

Sut fydd y datblygiad yn cael ei gyflwyno fesul cam?

Oherwydd graddfa gymharol fach y datblygiad, bydd yn cael ei adeiladu mewn un cam.

4. Mesurau Lliniaru Hyrwyddol Positif

Bydd darparu cyfleuster fforddiadwy sy'n addas i ddiwylliant Sir Ddinbych yn cyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned leol, ynghyd â Sir Ddinbych yn gyffredinol.

Er nad oes enw i'r safle ar hyn, bydd gan y safle ei enw stryd ei hun, a fydd yn deillio neu'n cael ei ysbrydoli gan yr iaith Gymraeg neu'r ardal gyfagos. Felly, bydd yr arwyddion stryd yn Gymraeg.